Senedd Cymru
**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**

# Adroddiad ynghylch y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Cynllunio a Seilwaith

Mehefin 2025

**1.** Cyflwynwyd y Bil Cynllunio a Seilwaith ("y Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 11 Mawrth 2025. Noddir y Bil gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol.

**2.** Gosododd Llywodraeth Cymru Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ("y Memorandwm") ar y Bil gerbron y Senedd ar 26 Mawrth 2025. Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol ("Memorandwm Rhif 2") ar 15 Mai 2025.

## Amcanion polisi

**3.** Yr amcanion polisi y mae Llywodraeth y DU wedi'u nodi ar gyfer y Bil yw cyflymu a symleiddio'r gwaith o greu tai newydd a seilwaith hanfodol, gan helpu i gyflawni cerrig milltir Cynllun Newid y Llywodraeth o godi 1.5 miliwn o dai diogel a da yn Lloegr, a sbarduno 150 o benderfyniadau cynllunio ar brosiectau seilwaith economaidd mawr erbyn diwedd y Senedd hon. Ei nod hefyd yw helpu i gyflawni targed Ynni Glân 2030 y Llywodraeth drwy sicrhau bod prosiectau ynni glân yn cael eu hadeiladu cyn gynted â phosibl.

**4.** Mae'r Bil yn ceisio darparu'r buddion canlynol, fel y nodir ym mharagraff 3 o'r Memorandwm:

a. Darparu ar gyfer proses gyflymach a mwy pendant ar gyfer cydsynio prosiectau seilwaith critigol a chryfhau'r fframwaith polisi o amgylch Datganiadau Polisi Cenedlaethol.

b. Rhoi system fwy effeithlon a rhagweladwy ar waith ar gyfer prosiectau seilwaith ynni, gan gynnwys:

  i. Diwygiadau i ddiweddaru'r broses ar gyfer cysylltu â'r grid trydan;

  ii. Sefydlu cynllun trothwyon uchaf ac isaf newydd i ddefnyddio adnoddau storio trydan cyfnod hir;

  iii. Diwygio'r drefn ar gyfer cydsynio seilwaith trydan yn yr Alban, er mwyn lleihau agweddau aneffeithiol ar y system a mabwysiadu arferion gorau;

  iv. Sefydlu cynllun gostwng biliau i'r rheini sy'n byw agosaf at seilwaith newydd trawsyrru trydan; a

  v. Diweddaru proses ar gyfer trawsyrru trydan o'r môr, trwy estyn cyfnod cymal comisiynu'r cynhyrchydd.

c. Symleiddio'r drefn ar gyfer cynnal prosiectau seilwaith trafnidiaeth a'i gwneud yn fwy effeithlon, gan gynnwys:

  i. Newid y broses o gymeradwyo gwaith stryd er mwyn gallu gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan yn gyflymach;

  ii. Diwygiadau amrywiol i Ddeddf Trafnidiaeth a Gwaith 1992 a Deddf Priffyrdd 1980 i symleiddio prosesau a chyflymu prosiectau; ac

  iii. Adennill costau Gorchmynion Adolygu Harbyrau yn well.

d. Cyflwyno dull mwy strategol o adfer natur mewn perthynas â datblygu, gan alluogi datblygwyr i ariannu'r gwaith adfer yn fwy effeithlon trwy Gronfa Adfer Natur newydd, tra'n sicrhau canlyniadau gwell i'r amgylchedd.

e. Gwneud penderfyniadau'n well a gwella sicrwydd gan wella capasiti awdurdodau cynllunio lleol trwy eu galluogi i adennill eu costau trwy ffioedd cynllunio.

f. Rhyddhau tir ar gyfer buddsoddiadau mawr, a sicrhau gwerth i'r cyhoedd, trwy ddiwygio'r broses gorchmynion prynu gorfodol a rheolau iawndal.

g. Cryfhau pwerau corfforaethau datblygu i ddarparu seilwaith, gan gynnwys trafnidiaeth, ac egluro a diweddaru cylchoedd gwaith ac amcanion corfforaethau datblygu.

h. Darparu ar gyfer cyflwyno system gynllunio strategol yn Lloegr.

## Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (Memorandwm Rhif 1)

**5.** Yn y Memorandwm, mae Llywodraeth Cymru yn datgan ei bod yn briodol delio â'r rhan fwyaf o'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn gan Senedd y DU. Mae'n esbonio y bydd y darpariaethau:

> *"yn helpu i hwyluso a symleiddio'r prosesau sy'n gysylltiedig â darparu seilwaith a datblygu, gan gynnwys tai, yng Nghymru."*

**6.** Mae Llywodraeth y DU wedi ysgrifennu at Rebecca Evans AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio i roi gwybod bod Llywodraeth y DU wedi ceisio cydsyniad ar gyfer y cymalau canlynol:

- Rhan 1 – Cymalau 24, 25, 29, 30 i 39, 41 a 42.
- Rhan 5 – Cymalau 83 i 87 ac 89 i 92.

**7.** Mae paragraff 59 o Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru yn nodi ei bod yn cytuno'n fras â dadansoddiad datganoli Llywodraeth y DU. Fodd bynnag, mae gwahaniaeth barn rhwng yr Ysgrifennydd Cabinet a Llywodraeth y DU o ran yr angen am gydsyniad y Senedd ar gyfer nifer fechan o ddarpariaethau yn y Bil.

**8.** Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymal 4(4) i 4(5). Mae hyn am ei fod yn cael effaith ar swyddogaethau awdurdodau datganoledig Cymru ac felly'n ymdrin â mater datganoledig.

**9.** Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cynnwys cymal 28 yn y Memorandwm hwn nes bod trafodaethau gyda swyddogion Llywodraeth y DU ar gymhwyso'r cymal i Loegr yn unig wedi dod i ben. Yn ogystal, bydd Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar y cymalau canlynol cyn y bydd yn gallu argymell bod y Senedd yn rhoi cydsyniad iddynt:

- Cymal 24 (Defnyddio ystâd goedwigaeth ar gyfer trydan adnewyddadwy);
- Cymal 28 (Gweithdrefn ar gyfer gorchmynion a chynlluniau penodol); a
- Chymal 38 (Cydsyniad tybiedig o dan drwydded forol).

### Cymal 4(4) – Ceisiadau am gydsyniad datblygu

**10.** Mae cymal 4(4) yn diwygio adran 60 o Ddeddf 2008 mewn perthynas ag adroddiadau ar effeithiau lleol. Mae'n darparu bod yn rhaid i awdurdod sy'n cynhyrchu adroddiad ar effeithiau lleol roi sylw i unrhyw ganllawiau perthnasol a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Byddai hyn yn cynnwys awdurdod lleol yng Nghymru os yw'r datblygiad yn digwydd yng Nghymru.

### Cymal 4(5) – Ceisiadau am gydsyniad datblygu

**11.** Mae cymal 4(5) yn cyflwyno adran 96A newydd yn Neddf 2008 i ddarparu bod rhaid i awdurdod cyhoeddus perthnasol sy'n gwneud unrhyw sylwadau am gais roi sylw i ganllawiau a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae hyn hefyd yn cynnwys awdurdodau lleol yng Nghymru (yn rhinwedd adran 56(2)(b) o Ddeddf 2008) a Gweinidogion Cymru ac awdurdodau datganoledig eraill yng Nghymru (yn rhinwedd adran 56(2)(a) o Ddeddf 2008).

## Pennod 2 – Seilwaith Trydan – Cynhyrchu trydan ar dir coedwigaeth

### Cymal 24 – Defnyddio ystâd goedwigaeth ar gyfer ynni adnewyddadwy:

**12.** Mae cymal 24 yn diwygio Deddf Coedwigaeth 1967 (drwy fewnosod adran 3A newydd ar ôl adran 3) gan roi pwerau penodol i'r awdurdod coedwigaeth priodol (Cyfoeth Naturiol Cymru ("CNC") fyddai'r awdurdod hwn yng Nghymru). Mewn perthynas â Chymru, dibenion y pwerau yw cael arian ar gyfer talu costau gweithgareddau CNC a hwyluso neu hyrwyddo defnyddio trydan adnewyddadwy. Mae'r cymal yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n darparu na chaiff CNC arfer ei bwerau o dan y cymal hwn heb gydsyniad Gweinidogion Cymru. Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch y broses ceisio a rhoi cydsyniad a darparu bod cydsyniad yn ddarostyngedig i amodau. Byddai rheoliadau o'r fath yn cael eu gwneud dan y weithdrefn negyddol.

## Pennod 3 – Seilwaith Trafnidiaeth - Diwygiadau i Ddeddf Priffyrdd 1980

### Cymal 25 – Ffioedd am wasanaethau penodol

**13.** Mae'r cymal hwn yn mewnosod adran 281B newydd yn Neddf Priffyrdd 1980. Mae'r adran hon yn rhoi pŵer newydd i'r Ysgrifennydd Gwladol yn Lloegr a Gweinidogion Cymru yng Nghymru wneud darpariaeth mewn rheoliadau i awdurdodau cyhoeddus godi tâl ar ymgeiswyr am eu gwasanaethau a ddarperir mewn cysylltiad â gorchmynion a chynlluniau a wneir mewn perthynas â phrosiectau ffyrdd o dan Ddeddf Priffyrdd 1980.

### Cymal 28 – Gweithdrefn ar gyfer gorchmynion a chynlluniau penodol

**14.** Mae cymal 28 yn diwygio adran 325 o Ddeddf Priffyrdd 1980 drwy ddileu'r gofyniad i orchmynion o dan adran 10 a chynlluniau o dan adran 16 neu 106(3) gael eu gwneud drwy offeryn statudol. Mae hefyd yn caniatáu i orchmynion adran 10 a chynlluniau adran 16 a 106(3) gael eu diwygio a'u dirymu drwy orchymyn neu gynllun dilynol. Mae'r diwygiad hwn yn galluogi dull cyson o ymdrin â gwahanol orchmynion Deddf Priffyrdd yn Lloegr. Mae’r cymal trwy amryfusedd yn cyfeirio at Gymru ac mae trafodaethau’n cael eu cynnal ar hyn o bryd â swyddogion Llywodraeth y DU i sicrhau bod y ddarpariaeth yn cyfeirio at Loegr yn unig.

### Cymal 29 – Pwerau prynu gorfodol gan gynnwys cymryd meddiant dros dro

**15.** Mae cymal 29 yn diwygio adran 250(8) o Ddeddf Priffyrdd 1980. Mae'r ddarpariaeth ychwanegol arfaethedig yn cynnwys yr hawl i gymryd meddiant neu feddiannaeth dros dro ar dir wrth arfer pwerau prynu gorfodol mewn perthynas â chynlluniau ffyrdd. Mae hyn yn rhoi pwerau i gymryd meddiant a defnyddio tir am gyfnod dros dro (yn orfodol neu drwy gytundeb) er mwyn rhoi llwybr cymesur i hyrwyddwyr cynllun allu crynhoi tir lle byddai caffael tir neu hawliau'n barhaol neu ansicrwydd ynghylch dychwelyd tir a gafodd ei gaffael yn creu oedi.

## Pennod 3 – Seilwaith Trafnidiaeth - Diwygiadau i Ddeddf Trafnidiaeth a Gwaith 1992

### Cymal 30 – Darparu canllawiau yn lle cymalau enghreifftiol

**16.** Mae cymal 30 o'r Bil yn diwygio adran 8 o Ddeddf Trafnidiaeth a Gwaith 1992 ("TWA 1992") sydd ar hyn o bryd yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud gorchymyn sy'n rhagnodi cymalau enghreifftiol y gellir eu hymgorffori yng ngorchmynion TWA 1992. Fodd bynnag, nid oes gofyniad i ymgeiswyr ddefnyddio'r cymalau enghreifftiol hyn. Mae'r ddarpariaeth yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau ynglŷn â pharatoi gorchmynion TWA 1992, a gall y canllawiau gynnwys cymalau enghreifftiol, gan ganiatáu iddynt gael eu diweddaru yn fwy rheolaidd drwy broses fwy effeithlon. Wrth benderfynu ar gais TWA 1992, rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i unrhyw ymwahanu o'r canllawiau hynny, a'r rhesymau a roddir gan yr ymgeisydd dros yr ymwahanu hwn.

### Cymal 31 – Dileu’r weithdrefn arbennig ar gyfer prosiectau o arwyddocâd cenedlaethol

**17.** Mae cymal 31 yn dileu adran 9 o TWA 1992, sy'n gymwys i geisiadau sy'n ymwneud yn gyfan gwbl neu'n rhannol â chynigion sydd ym marn yr Ysgrifennydd Gwladol o arwyddocâd cenedlaethol. Ers TWA 1992, sefydlodd Deddf 2008 gyfundrefn gydsynio newydd ar gyfer

Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol, gyda throthwyon wedi'u diffinio'n glir ar gyfer yr hyn sy'n cael ei ystyried o arwyddocâd cenedlaethol, gan gynnwys pŵer i gyfarwyddo bod prosiect nad yw'n bodloni'r trothwyon hynny o arwyddocâd cenedlaethol, naill ai ynddo'i hun neu o'i ystyried gyda phrosiectau eraill. Roedd Deddf 2008 yn gwneud adran 9 o TWA 1992 yn ddiangen i bob pwrpas, a bwriad y cymal hwn yw egluro'r fframwaith deddfwriaethol presennol.

**Cymal 32 – Dyletswydd i gynnal ymchwiliad neu wrandawiad**

**18.** Mae cymal 32 yn diwygio adran 11 o TWA 1992, sy'n nodi proses i wrthwynebydd roi gwybod i'r Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru os yw'n dymuno i'w wrthwynebiad gael ei gyfeirio at ymchwiliad neu gael ei drin yn unol ag adran 11(2). Mae'r ddarpariaeth yn diwygio adran 11(3) o TWA 1992 i'w gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru gynnal ymchwiliad cyhoeddus dim ond pan fydd gwrthwynebydd yn codi gwrthwynebiad sy'n cael ei ystyried yn sylweddol ac nid yn un dibwys neu wamal.

**Cymal 33 – Costau ymchwiliadau**

**19.** Mae cymal 33 yn diwygio adran 11 o TWA 1992 ac yn nodi pŵer newydd i sicrhau mai'r Arolygydd sy'n cynnal ymchwiliad cyhoeddus sy'n penderfynu ar gostau sy'n deillio o'r ymchwiliad cyhoeddus, oni bai bod yr Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru yn cyfarwyddo mai nhw sydd i bennu penderfyniad ar gostau.

**Cymal 34 – Dyddiadau cau ar gyfer penderfyniadau**

**20.** Mae cymal 34 yn diwygio adran 13 o TWA 1992 i ychwanegu pŵer i alluogi rheoliadau i bennu rheolau sy'n neilltuo cyfnod o amser ar gyfer cymryd camau gweithredu a gwneud penderfyniadau ynghylch achosion sy'n ymwneud â cheisiadau o dan adran 6 (ceisiadau am orchmynion o dan adrannau 1 a 3) o TWA 1992. Er mwyn i reol fod yn gymwys i Gymru, rhaid ei gwneud gyda chytundeb Gweinidogion Cymru.

**Cymal 35 – Cyhoeddi penderfyniadau ac amser ar gyfer herio**

**21.** Mae cymal 35 yn diwygio adran 14 o TWA 1992 i newid sut caiff penderfyniad ei gyhoeddi. Mae'r newid yn golygu ei gyhoeddi ar wefan Gweinidogion Cymru yn lle ei gyhoeddi yn y London Gazette. Mae adran 22 o TWA 1992 wedi'i diwygio hefyd i ddarparu bod y cyfnod herio (o 6 wythnos) yn dechrau diwrnod cyhoeddi'r penderfyniad yn unol â'r gofynion newydd

**Cymal 36 – Ffioedd am wasanaethau penodol**

**22.** Mae cymal 36 yn mewnosod adran 23A newydd yn TWA 1992 sy'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i enwi cyrff cyhoeddus (dim ond cyrff statudol penodol

ac awdurdodau cynllunio lleol) y caniateir iddynt godi tâl am y gwasanaethau a ddarperir i gynlluniau o fewn proses ymgeisio TWA 1992.

### Cymal 37 – Datgymhwyso cyfundrefnau treftadaeth

**23.** Mae cymal 37 yn mewnosod adran 17 newydd yn TWA 1992 sy'n datgymhwyso'r cydsyniad adeiladau rhestredig, y cydsyniad ardal gadwraeth ar gyfer dymchwel ac awdurdodiad henebion cofrestredig o dan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 pan roddir cydsyniad TWA 1992.

### Cymal 38 – Cydsyniad tybiedig o dan drwydded forol

**24.** Mae cymal 38 yn cyflwyno adran 19A newydd yn TWA 1992. Mae'r ddarpariaeth yn galluogi gorchymyn a wneir o dan adran 1 neu 3 o TWA 1992 i gynnwys darpariaeth sy'n tybio bod Gweinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol wedi rhoi trwydded forol o dan Ran 4 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009.

**25.** Mae paragraff 31 o'r Memorandwm yn nodi: "Mae trafodaethau yn parhau gyda swyddogion Llywodraeth y DU ynglŷn â sut y bwriedir i TWA 1992 fod yn gymwys ar y môr mawr a beth fydd effaith hynny ar swyddogaethau Gweinidogion Cymru o ran rhoi trwyddedau morol".

### Cymal 41 – Y pŵer i wneud diwygiadau canlyniadol

**26.** Mae cymal 41 yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud diwygiadau canlyniadol i gymalau 30 i 40 trwy reoliadau. Mae'r rheoliadau sy'n diwygio Deddf Seneddol y DU neu Ddeddf neu Fesur o'r Senedd yn dod o dan y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.

## Pennod 3 – Seilwaith Trafnidiaeth – Harbyrau: Ffioedd ceisio am orchmynion harbwr

### Cymal 42 – Ffioedd ceisio am orchmynion harbwr

**27.** Mae cymal 42 yn diwygio paragraffau 7 a 9, yn ychwanegu paragraff newydd yn Atodlen 3 ac yn diwygio adran 54 o Ddeddf Harbyrau 1964. Byddai'r newidiadau'n dileu'r darpariaethau presennol ym mharagraff 7(1)(c) yn Atodlen 3 i'r Ddeddf Harbyrau. Ni fyddai Gweinidogion Cymru'n nodi ffioedd mwyach mewn canllawiau cyhoeddedig fel y gwneir ar hyn o bryd. Yn hytrach, byddai Gweinidogion Cymru'n cael pŵer i wneud rheoliadau ynghylch ffioedd ymgeisio am Orchymyn Adolygu Harbyrau y bydd yr ymgeisydd yn eu talu.

## Rhan 5 – Prynu Gorfodol

### Cymal 83 – Gwasanaeth electronig ac ati

**28.** Mae cymal 83 yn diwygio adran 6 o Ddeddf Caffael Tir 1981, adran 38 o Ddeddf Digolledìad Tir 1961, ac mae'n ychwanegu adran newydd ar ôl adran 84 o Ddeddf Digolledìad Tir 1973. Diben y diwygiadau hyn yw ei gwneud yn haws defnyddio cyfryngau cyfathrebu electronig i gyflwyno hysbysiadau a dogfennau i wahanol bartïon y broses Gorchymyn Prynu Gorfodol ("GPG") i gyflymu'r broses a lleihau'r baich gweinyddol.

### Cymal 84 – Cynnwys gofynnol mewn hysbysiadau papur newydd

**29.** Mae cymal 84 yn diwygio adrannau 11, 15 a pharagraffau 2 a 6 o Atodlen 1 o Ddeddf Caffael Tir 1981. Maen nhw'n symleiddio'r lefel o fanylion y mae angen eu cynnwys mewn hysbysiad papur newydd ar gyfer hysbysebu, gwneud a chadarnhau GPG, gan ddileu'r gofyn am ddisgrifiad llawn o'r tir ac yn lle hynny, nodi cyfeiriad post y tir neu ddisgrifiad o leoliad y tir.

### Cymal 85 – Cadarnhau trwy orchymyn gan awdurdod caffael gyda newidiadau

**30.** Mae cymal 85 yn galluogi awdurdod caffael i gadarnhau ei orchymyn prynu gorfodol ei hun gyda newidiadau, ar yr amod nad yw hyn yn effeithio ar fuddiant person mewn tir. Mae hefyd yn galluogi hyn lle mae'n cael effaith, ar yr amod bod y person y mae hyn yn effeithio arno yn rhoi ei gydsyniad ar gyfer y newid sy'n cael ei wneud.

### Cymal 86 – Datganiadau breinio cyffredinol: gweithdrefn gyflym

**31.** Mae cymal 86 yn diwygio Deddf Prynu Gorfodol (Datganiadau Breinio) 1981 ac yn cyflwyno prosesau i awdurdodau caffael gymryd meddiant o dir/eiddo yn gynharach o dan y weithdrefn datganiad breinio cyffredinol.

### Cymal 87 – Datganiad breinio cyffredinol: cyflymu breinio trwy gytundeb

**32.** Mae cymal 87 yn diwygio Deddf Prynu Gorfodol (Datganiadau Breinio) 1981 ac yn cyflwyno proses i gymryd meddiant o dir/eiddo yn gynharach o dan y weithdrefn datganiad breinio cyffredinol drwy gytundeb.

### Cymal 89 – Taliadau am golli cartref: eithriadau

**33.** Mae cymal 89 yn diwygio Deddf Digolledìad Tir 1973 ac yn cyflwyno adran 32A newydd yn y Ddeddf honno sy'n eithrio'r hawl i daliad am golli cartref mewn sefyllfaoedd penodol.

### Cymal 90 – Meddiant dros dro ar dir

**34.** Mae cymal 90 yn diwygio adran 18 o Ddeddf Cynllunio Cymdogaeth 2017, nad yw wedi dod i rym eto. Cyflwynodd Deddf Cynllunio Cymdogaethau 2017 bŵer i feddiannu tir dros dro ar gyfer caffael tir yn orfodol, gan fod cydnabyddiaeth y gallai fod angen meddiannu tir dros dro ar gyfer gorchymyn prynu gorfodol ar gyfer safleoedd gwaith, storio ac ati, ac i gael tir dros dro rhaid i'r awdurdod caffael naill ai gael hawl barhaol neu ymrwymo i gytundeb masnachol gyda pherchennog y tir. Gall hyn arwain at oedi wrth gynnal prosiect ac at gostau uwch.

### Cymal 91 – Diwygiadau sy'n ymwneud ag adran 14A o Ddeddf Digollediad Tir 1961

**35.** Mae cymal 91 yn diwygio’r ddeddfwriaeth sy’n galluogi awdurdodau i gynnwys cyfarwyddydau yn eu gorchmynion prynu gorfodol (GPGau) fod yr asesiad o ddigolledlad mewn perthynas â gwerth y tir sy’n cael ei brynu’n orfodol ar y farchnad agored i’w wneud yn unol ag adran 14A o Ddeddf Digolledlad Tir 1961 (“cyfarwyddyd adran 14A”) fel bod y gwerth sy’n cael ei briodoli i ragolygon cael caniatâd cynllunio (“gwerth gobaith”) yn gallu cael ei ddiystyru.

### Cymal 92 – Pwerau newydd i benodi arolygydd

**36.** Mae cymal 92 yn cynnwys adran newydd ar ôl adran 4 o Ddeddf Trefi Newydd 1981 ac mae'n cynnwys paragraff newydd ar ôl paragraff 1 o Atodlen 2A i Ddeddf Digolledlad Tir 1961. O dan Ddeddf Trefi Newydd 1981, rhaid i'r awdurdod caffael gyflwyno pob GPG i un o Weinidogion perthnasol Cymru neu Ysgrifennydd Gwladol i'w gadarnhau. Mae ganddynt hefyd ddisgresiwn o dan Ddeddf Caffael Tir 1981 i ganiatáu i arolygwyr gadarnhau GPGau.

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2)

**37.** Mae'r memorandwm hwn yn cyfeirio at ddarpariaethau fel y'u cyflwynwyd gan Lywodraeth y DU i'r Bil i'w trafodyn Nhŷ'r Cyffredin. Mae paragraff 3 o Femorandwm Rhif 2 yn nodi bod Llywodraeth y DU wedi cyflwyno 17 o welliannau ar 23 Ebrill, a 22 o welliannau ar 24 Ebrill i'w trafod ym Mhwyllgor Tŷ’r Cyffredin.

**38.** Mae paragraff 10 o Femorandwm Rhif 2 yn nodi bod y gwelliannau canlynol wedi'u hasesu gan Lywodraeth Cymru fel rhai sy'n gofyn am gydsyniad deddfwriaethol y Senedd:

- Gov NC43 sy'n ychwanegu cymal newydd – “Changes to, and revocation of development consent orders”
- Gov NC44(a), (b) ac (e) sy'n ychwanegu cymal newydd – “Applications for development consent: removal of certain pre-application requirements”

- Gov NC45 sy'n ychwanegu cymal newydd – "Applications for development consent: changes related to section (Applications for development consent: removal of certain pre-application requirements)"

**39.** Mae Llywodraeth y DU o'r farn, ac eithrio Gov NC43, fod y darpariaethau yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl ac felly nad yw'r broses cydsyniad deddfwriaethol yn berthnasol iddynt.

**Gwelliant Gov NC43 – Newid a dirymu gorchmynion cydsyniad datblygu**

**40.** Mae'r gwelliant hwn yn cynnig diwygio Atodlen 6 i Ddeddf Cynllunio 2008 ("Deddf 2008"), sy'n ymwneud â newid a dirymu gorchmynion sy'n rhoi cydsyniad datblygu. Byddai'r gwelliant arfaethedig yn hepgor paragraff 2 o Atodlen 6 i Ddeddf 2008. Effaith hyn fyddai diddymu'r weithdrefn ar gyfer gwneud newidiadau ansylweddol i orchmynion cydsyniad datblygu a roddwyd o dan y Ddeddf honno. Mae gwelliant Gov NC43 hefyd yn gwneud newidiadau canlyniadol i Atodlen 6 i Ddeddf 2008, a hynny er mwyn adlewyrchu bod paragraff 2 wedi'i hepgor.

**Gov NC44(a), (b) ac (e) – Ceisiadau ar gyfer cydsyniad datblygu: dileu gofynion cyn ymgeisio penodol**

**41.** Mae'r cymal hwn yn hepgor ystod o adrannau o Ddeddf 2008. Mae'r ddarpariaeth yn bwriadu cynnig dileu: (a) adran 42 (dyletswydd i ymgynghori); (b) adran 43 (awdurdodau lleol at ddibenion adran 42(1)(b)); (c) adran 44 (categorïau at ddibenion adran 42(1)(d)); (d) adran 45 (amserlen ar gyfer ymgynghori o dan adran 42); (e) adran 47 (dyletswydd i ymgynghori â'r gymuned leol); (f) adran 49 (dyletswydd i ystyried ymatebion i ymgynghoriad a chyhoeddusrwydd).

**42.** Ar hyn o bryd mae'r adrannau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i berson sy'n bwriadu gwneud cais am gydsyniad datblygu ymgynghori â phobl benodol am y cais arfaethedig, gan gynnwys cyrff rhagnodedig, awdurdodau lleol, y gymuned leol, a phobl sydd â buddiant yn y tir dan sylw. Mae awdurdodau lleol yng Nghymru wedi'u pennu ar wyneb y Bil fel cyrff y mae'n rhaid ymgynghori â nhw pan fo'r datblygiad yn eu hardal. Mae Gweinidogion Cymru ac awdurdodau datganoledig eraill Cymru hefyd wedi'u pennu mewn rheoliadau a wnaed o dan adran 42 o Ddeddf 2008. Mae paragraff 15 o Femorandwm Rhif 2 yn nodi: *"Felly, bydd dirymu'r adrannau hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar swyddogaethau Gweinidogion Cymru ac Awdurdodau Datganoledig Cymru."*

**Gov NC45 – Ceisiadau am gydsyniad datblygu: newidiadau yn ymwneud ag adran (Ceisiadau ar gyfer cydsyniad datblygu: dileu gofynion cyn ymgeisio penodol)**

**43.** Mae'r cymal hwn yn gwneud newidiadau sy'n gysylltiedig â hepgor gofynion ymgynghori cyn ymgeisio mewn perthynas â Gov NC44. Mae'r diwygiad a gynigir yn is-adran (5) yn disodli adran 46 (dyletswydd i hysbysu'r Ysgrifennydd Gwladol am y cais arfaethedig) o Ddeddf 2008. Mae'r adran newydd arfaethedig yn disodli'r gofyniad i hysbysu'r Ysgrifennydd Gwladol am gais arfaethedig gyda gofyniad i hysbysu'r Ysgrifennydd Gwladol a phob awdurdod lleol perthnasol. Yng Nghymru, bydd awdurdod lleol yn cynnwys cyngor sir, neu gyngor bwrdeistref sirol. Felly, caiff gwybodaeth benodol ei darparu i awdurdodau lleol fel y nodir yn yr adran newydd arfaethedig 1(C) i'w mewnosod yn Neddf 2008 a hefyd mewn rheoliadau. Yn ogystal, hepgorir y gofyniad i'r ymgeisydd ddarparu’r wybodaeth i'r Ysgrifennydd Gwladol cyn dechrau ymgynghori o dan adran 42 o Ddeddf 2008. Mae paragraff 18 o Femorandwm Rhif 2 yn nodi bod "effaith y gwelliannau hyn yn rhoi swyddogaeth newydd i'r awdurdod cynllunio lleol a fydd yn derbyn y wybodaeth a nodir".

**44.** Mae'r diwygiad a gynigir yn is-adran (6) o Gov NC45 yn diwygio adran 48 (dyletswydd i roi cyhoeddusrwydd) o Ddeddf 2008. Mae is-adran (1) o adran 46 yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd roi cyhoeddusrwydd am y cais arfaethedig. Mae is-adran (2) yn darparu bod yn rhaid i reoliadau a wneir at ddibenion is-adran (1) wneud darpariaeth i’r cyhoeddusrwydd gynnwys dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion i'r cyhoeddusrwydd hwnnw gan yr ymgeisydd. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai'r darpariaethau a gynigir gan gymal newydd Gov NC45 yn rhoi, yn dileu neu'n addasu swyddogaethau awdurdodau datganoledig Cymru. Felly, mae Llywodraeth Cymru yn credu y bydd y diwygiadau’n sbarduno'r broses cynnig cydsyniad deddfwriaethol ac yn gofyn am gydsyniad y Senedd.

## Gohebiaeth gan randdeiliaid

**45.** Cafodd y Pwyllgor ohebiaeth gan Cyswllt Amgylchedd Cymru, Ymddiriedolaethau Natur Cymru, ac RSPB Cymru, mewn perthynas â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf. Mynegodd y sefydliadau sawl pryder, sydd wedi'u nodi isod.

**46.** Mynegodd Cyswllt Amgylchedd Cymru bryder nad yw’r Bil, fel y'i drafftiwyd ar hyn o bryd, yn cyd-fynd yn ei hanfod â pholisi a deddfwriaeth Cymru, ac os na chaiff hyn ei datrys, y bydd yn ddi-os yn arwain at ddiraddio natur a llesiant Cymru. Barn Cyswllt Amgylchedd Cymru yw nad oes gan y Bil y mesurau diogelwch angenrheidiol i fodloni ymrwymiadau hinsawdd a natur cyfreithiol rwymol y DU, a bod perygl y bydd yn arwain at ostyngiad yn y lefelau amddiffyniad a gynigir i natur ar hyn o bryd. Gwnaeth RSPB Cymru bwyntiau tebyg a rhybuddiodd, er bod Rhan 3 ar gyfer Lloegr yn unig, y gallai'r difrod amgylcheddol ymledu i Gymru.

**47.** Mae Rhan 3 o'r Bil yn cyflwyno Cynlluniau Cyflawni Amgylcheddol ac Ardoll Adfer Natur. Dadleuodd Cyswllt Amgylchedd Cymru y byddai'r mecanweithiau hyn yn caniatáu i ddatblygwyr gyflawni cyfrifoldebau amgylcheddol drwy gyfrannu'n ariannol yn hytrach na sicrhau lliniaru amgylcheddol ar safle. Er nad yw'r Bil yn cymhwyso Rhan 3 i Gymru, roedd Cyswllt Amgylchedd Cymru yn pryderu am bwysau polisi anuniongyrchol, gan ddweud bod risg sylweddol y gallai derbyn cynllun gwrthbwyso o'r fath yn Lloegr roi pwysau ar gynllunwyr yng Nghymru i fabwysiadu mesurau tebyg.

**48.** Mynegodd Ymddiriedolaethau Natur Cymru ac RSPB Cymru bryderon ynglŷn â chymhwysiad tiriogaethol Atodlen 4 i'r Bil, sy'n diwygio *Rheoliadau Cynefinoedd 2017* a deddfwriaeth amgylcheddol gysylltiedig yng Nghymru a Lloegr, er mwyn hwyluso gweithrediad Cynlluniau Cyflawni Amgylcheddol. Maent yn ystyried bod hyn yn anghyson â'r bwriad datganedig bod Rhan 3 yn gymwys *dim ond* yn Lloegr. Anogodd Ymddiriedolaethau Natur Cymru ac RSPB Cymru y Pwyllgor i ofyn am eglurhad ar y mater hwn.

**49.** Cynigiodd Cyswllt Amgylchedd Cymru welliant i gymal 24 i gryfhau mesurau diogelwch dros asedau amgylcheddol Cymru mewn perthynas â datblygu ynni adnewyddadwy ar *ystâd coetir Llywodraeth Cymru*. Mae'r gwelliant arfaethedig yn ceisio atal Cyfoeth Naturiol Cymru rhag hwyluso datblygiad a allai effeithio'n andwyol ar safleoedd dynodedig neu gynefinoedd na ellir eu hailgreu.

**50.** Byddai'r gwelliant arfaethedig yn gwahardd Cyfoeth Naturiol Cymru rhag ymrwymo i drefniadau a allai gael effeithiau andwyol yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar safle a ddynodwyd o dan Ddeddf yr Amgylchedd Cymru (2016) neu Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, neu effeithio ar gynefin na ellir ei ailgreu fel coetir hynafol.

## Ein barn ni

Rydym yn nodi'r sylwadau gan randdeiliaid nad yw'r cynigion yn y Bil hwn gan Senedd y DU yn cyd-fynd â pholisi a deddfwriaeth amgylcheddol Cymru, megis Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae pryderon nad oes mesurau diogelu digonol yn y Bil fel y'i drafftiwyd ac y gallai danseilio cynnydd o ran adferiad natur a thargedau hinsawdd. Rydym yn ceisio sicrwydd gan yr Ysgrifennydd Cabinet bod amddiffyniadau deddfwriaethol digonol ar waith i atal y Bil hwn gan Senedd y DU rhag gostwng safonau amgylcheddol yng Nghymru, gan gynnwys trwy effeithiau eilaidd.

Rydym yn arbennig o bryderus ynghylch gwelliannau arfaethedig Llywodraeth y DU a fydd yn dileu rhai gofynion cyn ymgeisio ar gyfer Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol, gan gynnwys y rhai yng Nghymru. Ar hyn o bryd mae gofyniad deddfwriaethol i berson sy'n

bwriadu gwneud cais am gydsyniad datblygu ymgynghori â phobl benodol ynghylch y cais arfaethedig. O dan y gwelliannau arfaethedig, bydd y gofyniad hwn, mewn perthynas ag awdurdod cyhoeddus perthnasol, yn cael ei ddisodli gan ofyniad i roi sylw i ganllawiau a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Credwn fod y broses ymgynghori cyn ymgeisio yn gyfle pwysig, a’r unig gyfle ystyrlon weithiau, i gymunedau lleol a rhanddeiliaid eraill godi eu lleisiau. Credwn y gallai gwanhau'r gofynion ymgynghori cyn ymgeisio greu risg na fydd problemau sylweddol yn cael eu nodi tan yn ddiweddarach yn y broses ddatblygu. Rydym hefyd yn pryderu y gallai'r dull gweithredu arfaethedig arwain at sefyllfa lle na fydd y broses ar gyfer Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol yng Nghymru a Phrosiectau Seilwaith Arwyddocaol Cymru yn cael ei halinio.

Ar adeg yr adroddiad, nid oeddem wedi gweld canllawiau Llywodraeth y DU. Mae'n anodd dod i farn, felly, ar ganlyniadau manwl y cynnig. Credwn y dylid cyhoeddi'r canllawiau, ac y dylai'r Senedd sicrhau ei hun ar y mater hwn, cyn penderfynu a ddylid rhoi cydsyniad.

Rydym yn nodi pryderon rhanddeiliaid ynglŷn â chymhwysiad tiriogaethol Atodlen 4. Mae'r Atodlen yn diwygio Rheoliadau Cynefinoedd 2017, sy'n gymwys yng Nghymru a Lloegr, ond mae'r Bil yn nodi bod Rhan 3 yn gymwys i Loegr yn unig. Byddem yn ddiolchgar o gael eglurhad gan Lywodraeth Cymru ar y mater hwn.

Roedd rhanddeiliaid yn arbennig o bryderus am y Cynlluniau Cyflawni Amgylcheddol a'r Ardoll Adfer Natur fel mecanweithiau i ganiatáu i ddatblygwyr yn Lloegr wneud cyfraniadau ariannol yn hytrach na gweithredu mesurau lliniaru. Rydym yn cydnabod na fydd y mecanweithiau hyn yn gymwys i Gymru. Fodd bynnag, rydym yn nodi pryder rhanddeiliaid y gellir eu defnyddio i roi pwysau anffurfiol ar awdurdodau cynllunio Cymru i ddatblygu dull gweithredu tebyg. Rydym yn ceisio sicrwydd gan Lywodraeth Cymru na fyddai unrhyw ddull gweithredu o'r fath yn ganiataol o dan bolisi a deddfwriaeth cynllunio cyfredol yng Nghymru.

Rydym yn nodi gwelliant arfaethedig Cyswllt Amgylchedd Cymru i gymal 24 i atal CNC rhag hwyluso datblygiadau a allai effeithio'n andwyol ar safleoedd gwarchodedig neu gynefinoedd fel coetir hynafol, yn enwedig ar Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru. Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei safbwynt ar y mater hwn ac, os nad yw'n gallu cyflawni'r newidiadau arfaethedig i’r Bil gan Senedd y DU, dylai egluro sut y gall sicrhau'r canlyniad a gynigir gan y gwelliant.

Yn olaf, mae sawl mater wedi'u rhestru yn y memoranda cydsyniad deddfwriaethol sydd wedi'u disgrifio gan yr Ysgrifennydd Cabinet fel rhai sy'n gofyn am drafodaeth bellach gyda Llywodraeth y DU. Credwn y dylid datrys y materion hyn cyn i'r Senedd benderfynu a yw am roi ei chydsyniad.